# POLISI DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

## 1. Pwrpas

Bydd WJEC CBAC Ltd ("**CBAC**") yn defnyddio'r holl ddulliau priodol ac angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer cysylltiedig a gyhoeddir yn unol ag adrannau 45(5) a 46(6) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**DRhG**”)

## 2. Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio i CBAC neu ar ei ran, gan gynnwys contractwyr, staff dros dro a staff asiantaeth a secondai.

Mae’n ofynnol i bob cyflogai ddarllen, ystyried a chadw at y polisi hwn. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau disgyblu.

## 3. Nod

Nod y Polisi hwn yw cyfleu cynnwys y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i’r holl staff fel y gellir deall daliadau sylfaenol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y mae’n berthnasol i CBAC, a lle mae angen gweithredu, bod fframwaith i’w galluogi i wneud hynny.

Egwyddor sylfaenol y polisi hwn yw bod gan y cyhoedd hawl mynediad at wybodaeth wedi’i chofnodi sy’n cael ei chadw gan CBAC. Mae CBAC am hyrwyddo cyfundrefn agored o ran mynediad at wybodaeth, yn amodol ar eithriadau sydd wedi’u cynnwys yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

## 4. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol i bob awdurdod cyhoeddus a ddaeth i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2005. Mae'n rhoi hawl stat’dol i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaet’ wedi'i chofn’di sy'n cael ei chadw gan awdurd“dau ("Cais Rhyddid Gwyb”daeth"), yn amodol ar rai eithriadau, o fewn ugain diwrnod gwaith. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gwbl ôl-weithredol ’c mae'n berthn’sol i'r holl wyboda’th sy'n dod o fewn cwmpas y Ddeddf, nid dim ond gwybodaeth a grëwyd o 1 Ionawr 2005. Mae Adran’19 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn gorfodi CBAC i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhagweithiol ar “furf "cynllun cyhoed”iadau’ wedi'i gymeradwyo.

Yn ogystal â hyn, ar hyn o bryd, mae gan unigolion hawl statudol i gael mynediad “t eu "data pe”sonol" eu hunain o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data “018 ("**Deddfwriaeth Diogelu Data**”). Mae gan CBAC bolisïau a gweithdrefnau ar wahân ar waith mewn perthynas â hawliau unigol o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Prif nodweddion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw:

- Hawl gyffredinol i gael mynediad at wyboda’th sy'n cael ei chadw gan awdurdodau cyhoeddus.
- Nodi eithri’dau i'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus arfer disgresiwn; efallai y bydd yn rhaid iddynt benderfynu nid yn unig a yw eithriad yn berthnasol, ond

hefyd i ba raddau y gallai fod yn berthnasol (mae rhai eithriadau yn amodol ac yn dibynnu ar ble mae’r cydbwysedd o ran "*buddiannau'r cyhoedd”*).

- Gwneud trefniadau mewn perthynas â chostau a ffioedd.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus arfer cynlluniau cyhoeddiadau.
- Rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud trefniadau ar gyfer gorfodi ac apelio.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i roi cyngor a chymorth i bobl sy'n dymuno gwneud ceisiadau am wybodaeth, neu sydd wedi gwneud; ac
- Amlinellu codau ymarfer.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn diffinio gwybodaeth yn eang iawn ac mae'n cynnwys deunydd sy'n cael ei chadw gan CBAC yn electronig ac ar babur. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Deunyddiau a grëwyd gan CBAC ac sy'n cael eu cadw gan CBAC;
- Deunyddiau a grëwyd gan CBAC ac sy'n cael eu cadw gan gorff arall ar ein rhan;
- Deunyddiau sy'n cael eu cadw gan CBAC a ddarperir gan drydydd partïon, lle mae hyn yn ymwneud â swyddogaeth neu fusnes CBAC; a
- Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan CBAC mewn perthynas â'i ymddiriedolwyr lle mae'r wybodaeth yn ymwneud â swyddogaethau a busnes CBAC.

Rhaid ymdrin â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn **20 diwrnod gwaith**.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan bob cyflogai, aelod o staff a chontractwr CBAC ddyletswydd i gynorthwyo gyda rhwymedigaethau CBAC o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a sicrhau cydymffurfiaeth â hynny. Yn ogystal â hyn mae gan CBAC fel corff rwymedigaethau parhaus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a chamau y mae'n rhaid iddo eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r rhain yn cael eu hamlinellu isod:

5.1 Mae CBAC

- Wedi pennu Swyddog Diogelu Data (y "**SDD")** sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Polisi hwn, sefydlu systemau, gweithdrefnau a phroses weithredol i gefnogi cydymffurfiaeth CBAC â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- Yn cyhoeddi a chynnal Cynllun Cyhoeddiadau;
- Darparu hyfforddiant perthnasol i'r holl staff sydd â chyfrifoldebau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;
- Yn darparu llinellau adrodd clir a goruchwyliaeth er mwyn cydymffurfio â cheisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

- Yn datblygu a chynnal gweithdrefn glir ar gyfer cydnabod ceisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ymateb iddynt mewn modd amserol;

- Yn darparu strategaeth reoli cofnodion sy'n ategu ac yn cynorthwyo cydymffurfiaeth CBAC â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

- Yn sicrhau bod staff CBAC yn ymwybodol ei bod yn drosedd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i newid, difwyno, rhwystro, dileu, dinistrio neu guddio unrhyw wybodaeth y mae CBAC yn ei chadw rhag cael ei datgelu;

5.2 Bydd yr SDD yn:

## Gwirio cywirdeb a chynnwys ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth lle y bernir ei fod yn angenrheidiol;

- Cynghori lle gall cais fod yn destun eithriad neu os yw'r SDD yn credu y gellir defnyddio'r datgeliad mewn ffordd ddadleuol neu faleisus;

- Penodi unigolyn (neu grŵp o unigolion) i weithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer pob Cais Rhyddid Gwybodaeth;

- Caffael, gofyn neu gynorthwyo i gaffael gwybodaeth sy'n berthnasol i bob Cais Rhyddid Gwybodaeth gan bob adran o CBAC;

- Goruchwylio ymchwiliadau i apeliadau a chwynion mewn perthynas â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth;

- Sicrhau bod rheolwyr adrannau a staff uwch yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb o sicrhau bod unrhyw gofnodion sy'n cael eu creu a'u cadw gan eu hadrannau priodol wedi'u cofrestru ar gofrestr asedau gwybodaeth CBAC

5.3 Bydd staff CBAC yn

- Arsylwi pob math o ganllawiau, codau ymarfer a gweithdrefnau ynghylch storio, cau, cadw a gwaredu dogfennau a chofnodion. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi Cadw Data CBAC;

- Rhoi gwybod i'r SDD ar unwaith am yr holl Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbynnir gan y cyflogai yn uniongyrchol;

- Rhoi ymatebion llawn a phriodol i'r SDD i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser angenrheidiol;

- Ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant Deddf Rhyddid Gwybodaeth ffurfiol y mae CBAC neu'r SDD yn ei ystyried yn angenrheidiol;

- Sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a rhoi sylw dyledus iddynt, yn enwedig hawl y cyhoedd i gael mynediad at unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chadw gan CBAC;

- Sicrhau eu bod yn deall y gall torri'r polisi hwn arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo.

## 6. Rheoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Y SDD fydd yn gyfrifol am sicrhau bod proses ddigon effeithlon wedi'i sefydlu i gefnogi cydymffurfiaeth CBAC â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth bob amser.

Rhaid i'r SDD gymeradwyo'r ymatebion drafft terfynol i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu eu dirprwyo i aelod o staff hyfforddedig yn absenoldeb y SDD.

### 6.1 Beth yw Cais Rhyddid Gwybodaeth dilys ?

Mae Adran 8 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi bod yn rhaid i gais dilys fod:

- Yn ysgrifenedig;
- Yn nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais ac yn cynnwys cyfeiriad dilys ar gyfer gohebiaeth (mae cyfeiriadau e-bost yn ddilys);
- Yn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani;
- Yn cael ei dderbyn ar ffurf ddarllenadwy; ac
- Y gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol.

Mae'r term 'ysgrifenedig' yn cynnwys ceisiadau a gyflwynir drwy lythyr ac ar ffurf electronig, gan gynnwys y rhai a anfonir ar gyfryngau cymdeithasol. Nid oes rhaid i'r cais gyfeirio'n uniongyrchol at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Ryddid Gwybodaeth na bod yn unig neu brif thema gohebiaeth y sawl sy'n gwneud cais.

Wrth benderfynu a yw enw a/neu gyfeiriad yn ddilys, os yw enw'r sawl sy'n gwneud cais yn ffugenw amlwg neu os yw'n cynnwys rhan o'i enw go iawn yn unig (e.e. joe@123), yna bydd y cais ond yn ddilys os yw ei enw go iawn i'w weld mewn mannau eraill yng nghorff y cais.

Os ydych wedi derbyn cais am fod copi wedi'i anfon atoch chi neu at CBAC o ohebiaeth gan unigolyn at berson arall neu awdurdod cyhoeddus, rhowch wybod i'r SDD.

### 6.2 Terfyn amser ar gyfer Cais Rhyddid Gwybodaeth

Mae gan CBAC systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gadarnhau neu wadu ei fod yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac i ddarparu ymateb i geisiadau o fewn y terfyn amser statudol o **20 diwrnod gwaith** o ddyddiad derbyn cais dilys.

Gall CBAC ddewis rhoi eithriad i unrhyw wybodaeth neu wrthod cais os yw'n drallodus neu wedi'i hailadrodd neu lle bydd cydymffurfio â'r cais yn golygu mynd yn uwch na'r terfyn costau perthnasol. Rhaid gwirio pob eithriad neu wrthodiad Cais Rhyddid Gwybodaeth gyda'r SDD a'i roi i'r sawl sy'n gwneud cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

### 6.3 Sut bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu?

Pan fydd unigolyn sy'n gwneud ei gais am wybodaeth, yn mynegi bod yn well ganddo gyfathrebu drwy unrhyw un neu fwy o'r dulliau canlynol:

- Darparu copi o'r wybodaeth ar ffurf barhaol i'r unigolyn, neu ar ffurf arall y bernir ei bod yn dderbyniol gan yr unigolyn;

- Darparu cyfle rhesymol i'r unigolyn archwilio'r cofnod sy'n cynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani; neu

- Darparu crynhoad neu grynodeb o'r wybodaeth ar ffurf barhaol i'r unigolyn, neu ar ffurf arall y bernir ei bod yn dderbyniol gan yr unigolyn.

Bydd CBAC, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r dewis hwnnw.

Wrth benderfynu a yw'n rhesymol ymarferol i gyfleu gwybodaeth drwy ddull penodol, bydd CBAC yn ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys cost gwneud hynny. Os penderfynir nad yw'n rhesymol ymarferol cydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegir gan yr unigolyn wrth wneud ei gais, bydd yr unigolyn yn cael ei hysbysu o'r rhesymau dros ei benderfyniad a bydd CBAC yn darparu'r wybodaeth drwy unrhyw fodd y mae'n ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

6.4 <u>Gwrthod Cais Rhyddid Gwybodaeth</u>

Nid yw'r ddyletswydd i gadarnhau neu wrthod a yw gwybodaeth yn cael ei chadw neu beidio, yn codi os:

- Oes eithriad yn gymwys o dan adran 2 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (gweler Atodiad A);

- Mae amcangyfrif yn dangos y bydd cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn perthnasol; neu

- Gall ddangos bod y cais wedi'i ailadrodd neu'n drallodus.

Ar ôl gwrthod cais am wybodaeth, bydd yr unigolyn yn cael gwybod am y rhesymau dros y penderfyniad hwn o fewn **20 diwrnod gwaith**, ac ar yr un pryd bydd yn cael gwybod am y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn am sut y cyflawnodd CBAC ei ddyletswyddau a'u hawliau mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Os yw CBAC yn dibynnu ar eithriad o dan ran 2 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (gweler Atodiad A), sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i gadarnhau neu wadu, bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith a fydd yn nodi'r ffaith honno. Rhaid i'r holl hysbysiadau, gwrthodiadau ac eithriadau gael eu gwirio a'u cymeradwyo gan y SDD neu unigolyn y mae'r SDD yn dirprwyo awdurdod iddo.

6.5 <u>Golygu gwybodaeth</u>

Mae Golygiad yn broses sy'n cael ei chynnal i wneud gwybodaeth yn annarllenadwy, neu i ddileu gwybodaeth wedi'i heithrio o ddogfen. Cyflawnir hyn drwy guddio geiriau, brawddegau neu baragraffau unigol, neu drwy ddileu tudalennau neu adrannau cyfan cyn rhyddhau'r ddogfen. Fodd bynnag, os bernir bod cymaint o wybodaeth wedi'i heithrio fel bod y ddogfen yn dod yn annarllenadwy, dylid cadw'r ddogfen gyfan yn ôl.

Wrth ymateb o dan Gais Rhyddid Gwybodaeth, rhaid nodi oherwydd pa eithriad y mae'r wybodaeth wedi'i golygu, a rhaid gwneud hyn am bob eithriad.

Rhaid i'r holl olygiadau gael eu gwneud gan dîm gwybodaeth CBAC, SDD neu unigolyn a awdurdodir gan y SDD.

Rhaid darparu copi glân o'r wybodaeth (y wybodaeth y gofynnwyd amdani sydd heb ddarnau wedi'u golygu) i'r SDD, yn ogystal â'r copi â hepgoriadau a manylion yr eithriad dan sylw.

6.6 Adolygiad Mewnol

Gall y SDD, yn ôl disgresiwn y SDD, gynnal adolygiad mewnol o bryd i'w gilydd o broses, hyfforddiant a pholisïau CBAC sy'n ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a rheoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Gall y SDD hefyd gynnal adolygiadau mewnol ar gais unigolyn sy'n gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth neu sydd wedi gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth. Os yw'r adolygiad mewnol yn ymwneud â chais Rhyddid Gwybodaeth, bydd y SDD yn nodi ac yn cyfathrebu â'r holl staff perthnasol a gynorthwyodd gyda'r Cais Rhyddid Gwybodaeth, neu sy'n cynorthwyo gyda'r cais Rhyddid Gwybodaeth.

6.7 Ceisiadau Trallodus neu wedi'u Hailadrodd

Os bydd unigolyn yn gwneud cais trallodus neu wedi'i ailadrodd am wybodaeth sy'n union yr un fath neu'n debyg, bydd y SDD yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais yn ysgrifenedig na fydd yn cyflawni'r cais. Wrth ymateb yn y modd hwn, bydd y SDD yn cynnig cymorth i'r unigolyn trwy nodi pam ei fod yn ystyried bod y cais yn drallodus neu wedi'i ailadrodd. Bydd y SDD hefyd yn nodi ble y gall yr unigolyn droi os yw'n anhapus â'r sefyllfa hon.

6.8 Ceisiadau i fwy nag un Awdurdod Cyhoeddus

Pan fo CBAC yn derbyn cais am wybodaeth sy'n debyg i un neu fwy o geisiadau a wnaed i gyrff tebyg am wybodaeth gan yr un unigolion neu grŵp o unigolion, bydd CBAC yn:

- Gweithio gyda'r cyrff hynny y cyflwynwyd y cais iddynt i sicrhau bod dull cyson a chydlynol yn cael ei gymhwyso;
- Nodi pa gwestiynau sy'n geisiadau am wybodaeth;
- Darparu cyngor a chymorth i'r unigolyn sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau, os oes angen; a
- Darparu ymateb yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

6.9 Ceisiadau yn ymwneud â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig

Bydd yr holl Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ynghylch polisïau a gweithdrefnau CBAC mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu trin yn yr un modd â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth eraill.

6.10 Cwynion Ffurfiol

Bydd yr holl gwynion ffurfiol a dderbynnir am gyflawni dyletswyddau CBAC o dan delerau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu trin yn yr un modd ac yn defnyddio'r un gweithdrefnau â Pholisi Cwynion CBAC.

6.11 Y Comisiynydd Gwybodaeth (y "**CG**")

Mae'r CG yn awdurdod cyhoeddus annibynnol sy'n cynnal hawliau gwybodaeth yn y DU. Gall unigolion nad ydynt yn fodlon â chanlyniad eu Cais Rhyddid Gwybodaeth ofyn i'r CG adolygu sut mae CBAC wedi perfformio mewn ymateb i gais unigolyn.

6.12 Dyletswydd i Ddarparu Cymorth

Mae gan CBAC ddyletswydd i ddarparu cyngor a chymorth i unigolion sy'n gwneud Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn unol ag Adran 16 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac Adran 45 y Cod Ymarfer, a gyhoeddir gan y CG. Bydd CBAC yn ymdrechu i ymgymryd â'r holl gamau ymarferol y mae'n eu hystyried yn rhesymol i gyflawni hyn.

6.13 Hunaniaeth yr unigolyn sy'n gwneud Cais Rhyddid Gwybodaeth

Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddiystyru hunaniaeth unigolyn, ond gan fod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn nodi y gellir datgelu gwybodaeth er lles y cyhoedd, mae'r CG wedi cynghori na ddylai cyrff ystyried cymhellion yr unigolyn sy'n gwneud y cais.

Ar y sail hon, bydd CBAC yn asesu pob cais ar y ddealltwriaeth nad yw hunaniaeth y sawl sy'n gwneud y cais yn rhywbeth perthnasol i'w ystyried.

Mae'r canlynol ymhlith eithriadau o'r fath, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r rhain:

- Ystyrir bod cais yn cael ei ailadrodd;
- Mae'r unigolyn wedi gwneud cais am ei ddata personol ei hun;
- Costau cyfanredol yn unol â rheoliadau ffioedd;
- Byddai rhyddhau yn debygol o beryglu iechyd a diogelwch yr unigolyn neu unrhyw berson arall;
- Gall niwed gael ei achosi drwy ryddhau'r wybodaeth, naill ai i'r unigolyn neu i unrhyw berson arall (eithriadau sy'n seiliedig ar niwed yn unig);
- Sefyllfaoedd lle mae CBAC yn hyderus bod hunaniaeth y sawl sy'n gwneud cais yn golygu bod y wybodaeth yn rhesymol hygyrch i'r person hwnnw drwy ddulliau eraill ac felly mae wedi'i eithrio yn unol ag Adran 21 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (gwybodaeth sy'n hygyrch i'r sawl sy'n gwneud cais drwy ddulliau eraill).
- Os byddai datgelu data personol trydydd parti yn groes i egwyddorion diogelu data a/neu reoliadau ynghylch rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd.

6.14 Trosglwyddo Cais Rhyddid Gwybodaeth i gorff arall

Mae CBAC yn cydnabod, lle nad yw'n cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'n cadw rhan helaeth o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, y gallai fod angen trosglwyddo'r cais i gorff arall. Os felly, bydd yr unigolyn yn cael gwybod cyn gynted â phosibl.

Os yw CBAC o'r farn bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei chadw gan awdurdod cyhoeddus arall gall CBAC, yn ôl ei ddisgresiwn:

- Gysylltu â'r unigolyn a rhoi manylion y corff sy'n cadw'r wybodaeth berthnasol iddo; neu

- Cysylltu â'r corff yn uniongyrchol ar ran yr unigolyn a throsglwyddo'r cais.

6.15 Trydydd Partïon

Mae CBAC yn cydnabod, mewn rhai achosion, y gallai datgelu gwybodaeth yn unol â chais effeithio ar hawliau cyfreithiol trydydd parti; er enghraifft, pan fo'r wybodaeth yn ddarostyngedig i gyfraith gwlad dyletswydd cyfrinachedd, neu lle mae'n gyfystyr â data personol o dan GDPR y DU. Oni bai bod eithriad yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth benodol, bydd yn ofynnol i CBAC ddatgelu'r wybodaeth mewn ymateb i gais.

Lle na ellir datgelu gwybodaeth heb gydsyniad trydydd parti ac y byddai'n gyfystyr â thorri cyfrinachedd y gellir gweithredu arno fel y byddai eithriad yn berthnasol, bydd CBAC yn ymgynghori â'r trydydd parti hwnnw gyda'r bwriad o ofyn am ei gydsyniad, oni bai bod ymgynghoriad o'r fath yn anymarferol.

Bydd CBAC yn cynnal ymgynghoriad lle:

- Gall barn y trydydd parti gynorthwyo i benderfynu a yw eithriad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol; neu

- Gall barn y trydydd parti gynorthwyo i benderfynu beth yw budd y cyhoedd.

Efallai y bydd CBAC o'r farn nad yw ymgynghori yn briodol lle byddai'r gost neu'r amser a/neu'r ymdrech o ymgynghori â'r trydydd parti yn anghymesur. Mewn achosion o'r fath, bydd yn ystyried y camau mwyaf rhesymol i sicrhau bod gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu bodloni. Ni fydd angen ymgynghori lle:

- Nad yw CBAC yn bwriadu datgelu'r wybodaeth; neu

- Na all barn y trydydd parti gael unrhyw effaith ar y penderfyniad ynghylch a ddylid datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Lle gall datgeliad effeithio ar fuddiannau nifer o drydydd partïon a bod gan y partïon hynny gynrychiolydd, bydd CBAC, os yw'n ystyried ymgynghori'n briodol, yn ei ystyried yn ddigonol i ymgynghori â rhai o'r cyrff yn unig.

Os na fydd trydydd parti yn ymateb i ymgynghoriad, nid yw'n rhyddhau CBAC o'i ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, na'i ddyletswydd i ymateb o fewn yr amser a bennir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Ym mhob achos, mater i CBAC, nid y trydydd parti, yw penderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth. Nid yw gwrthod cydsynio i ddatgelu gan drydydd parti yn golygu y bydd gwybodaeth yn cael ei dal yn ôl yn awtomatig.

Bydd CBAC hefyd yn ceisio ymgynghori â chyrff eraill lle mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i darparu gan y corff hwnnw.

Gofynnir am ganiatâd gan yr holl staff eraill i ryddhau eu gwybodaeth lle mae'n rhesymol yng nghyd-destun y cais i wneud hynny. Bydd y SDD yn penderfynu pryd mae'n rhesymol i geisio cydsyniad, yn unol â'r egwyddor bod gan weithwyr hawl resymol i breifatrwydd yn y gwaith.

Bydd ceisiadau am wybodaeth am gyflog yn cael eu hateb, os yw'n berthnasol, drwy ddarparu graddfeydd taliad cydnabyddiaeth.

## 7. Eithriadau, a Phrawf Budd y Cyhoedd

Bydd CBAC yn annog rhyddhau gwybodaeth wedi'i chofnodi i'r cyhoedd yn gyson. Weithiau nid yw'n briodol nac yn ymarferol datgelu gwybodaeth wedi'i chofnodi a gedwir gan CBAC, ac mae 23 eithriad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y gellir eu defnyddio i atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu. Mae dau fath o eithriad: Absoliwt ac Amodol.

Nid yw eithriadau absoliwt yn destun prawf budd y cyhoedd; Mae eithriadau amodol yn destun prawf budd y cyhoedd cyn iddynt gael eu rhyddhau i benderfynu a ddylid datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu ei dal yn ôl yn seiliedig ar fudd gorau'r cyhoedd. Mae rhestr lawn o'r eithriadau sydd ar gael o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Nodir prawf budd y cyhoedd yn Adran 2 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n nodi, hyd yn oed pan fo'r wybodaeth yn bodloni gofynion eithriad cymwys, y gellir dal y wybodaeth yn ôl dim ond: *'yn holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwyso budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.'*

Mae prawf budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried ffactorau budd y cyhoedd sy'n cystadlu o ran datgelu a chynnal cyfrinachedd trwy bwyso a mesur y wybodaeth a'r amgylchiadau sy'n cystadlu yn erbyn hynny. Bydd y SDD neu unigolyn y dirprwyir awdurdod iddo yn cynnal profion budd y cyhoedd heb duedd, yn unol â chanllawiau gan y CG, a gyda'r bwriad o ryddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani oni bai bod cynnal yr eithriad o fudd i'r cyhoedd.

Bydd cryfder y ffactorau, o blaid datgelu a chynnal yr eithriad, yn cael ei asesu fesul achos.

Mae Adran 36 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn galluogi i'r wybodaeth gael ei hystyried yn un wedi'i heithrio os yw ei datgelu yn atal awdurdod rhag gallu cynnal ei fusnes yn effeithiol. Mae dibyniaeth ar yr eithriad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth y SDD.

## 8. Contractau Sector Cyhoeddus

Wrth ymrwymo i gontractau, bydd CBAC yn gwrthod cynnwys telerau contract sy'n ceisio cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth y mae'n ei chadw mewn perthynas â'r contract y tu hwnt i'r cyfyngiadau a ganiateir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## 9. Ffioedd

Nid yw'n arfer cyfredol i CBAC godi tâl am Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Fodd bynnag, os yw'n cynnwys llawer iawn o waith yna mae CBAC yn cadw'r hawl i godi ffi safonol. Bydd y penderfyniad ar y ffi a godir yn cael ei wneud yn unigol gan y SDD a bydd yn cael ei wneud ar sail gweithgaredd sy'n ofynnol i fodloni'r Cais Rhyddid Gwybodaeth.

## 10. Cynllun Cyhoeddi

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob awdurdod i fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gan yr Awdurdod, sydd wedi'i chymeradwyo gan y CG.

Gellir gweld Cynllun Cyhoeddi CBAC ar ei wefan.

## 11. Cofnod Datgeliadau

Bydd CBAC yn cadw cofnod datgeliadau sy'n nodi'r prif fathau o geisiadau a dderbynnir a'r ymatebion a roddir.

Mae cofnod datgeliadau yn rhestru'r ymatebion i geisiadau a wnaed i CBAC o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a allai fod o fudd ehangach i'r cyhoedd. Bydd hyn ar gael ar gais.

Bydd y SDD yn asesu pob ymateb i benderfynu a ddylid ei gyhoeddi yn y cofnod datgelu a bydd yn dod i gasgliad yn unol â hynny trwy asesu’r canlynol:

- Os yw tystiolaeth y gellir ei dangos wedi'i chynnwys yn y wybodaeth am benderfyniadau allweddol a wneir gan CBAC;
- P'un a yw'r datgeliad yn llwyddo yn y prawf budd y cyhoedd; a
- A yw CBAC wedi treulio amser sylweddol ac wedi defnyddio adnoddau sylweddol yn datgelu'r wybodaeth.

**ATODIAD A – EITHRIADAU**

## Gwybodaeth Eithriedig o dan Ran 2 y Ddeddf – Yr Eithriadau

Mae dau fath o eithriad dosbarth wedi'u nodi yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000:

**Absoliwt** – nad oes angen prawf niwed na chydbwysedd budd y cyhoedd i fod o blaid peidio â datgelu.

**Cymwys** – yn ôl prawf budd y cyhoedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyhoeddus benderfynu a yw o fudd i'r cyhoedd i beidio â datgelu gwybodaeth.

Ac eithrio Adran 21 (gwybodaeth ar gael drwy ddulliau eraill), mae eithriadau'n berthnasol nid yn unig i drosglwyddo gwybodaeth, ond hefyd oherwydd dyletswydd i gadarnhau neu wadu a fyddai'n datgelu gwybodaeth sy'n rhesymol i'w chadw yn ôl.

**Eithriadau absoliwt:**

- **Adran 21 – Gwybodaeth sy'n hygyrch i'r sawl sy'n gwneud cais drwy ddulliau eraill**
  Gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus, fel yr hyn a gyhoeddir yn y Cynllun Cyhoeddi.
- **Adran 23 – Gwybodaeth a gyflenwir gan, neu sy'n ymwneud â chyrff sy'n delio â materion diogelwch**
  Gwybodaeth a dderbynnir gan, neu sy'n ymwneud ag unrhyw un o restr o enwau cyrff diogelwch, fel y gwasanaeth diogelwch.
- **Adran 32 – Cofnodion llys**
  Gwybodaeth sy'n cael ei chadw fel rhan o'r ddogfennaeth ar gyfer achos llys, tribiwnlys neu ymchwiliad statudol yn unig.
- **Adran 34 – Braint seneddol**
  Gwybodaeth a fyddai, pe bai'n cael ei datgelu, yn torri braint seneddol.
- **Adran 40 – Gwybodaeth bersonol**
  Gwybodaeth sy'n bersonol i'r person sy'n gwneud y cais.
- **Adran 41 – Gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol**
  Torri cyfrinachedd y gellir gweithredu arno, lle byddai datgelu yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd a fyddai'n arwain at gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd.
- **Adran 44 – Gwaharddiadau cyfreithiol ar ddatgelu**
  Lle mae datgelu gwybodaeth yn cael ei wahardd gan unrhyw gyfraith neu reoliad arall, neu lle byddai'n ddirmyg llys.

**Eithriadau cymwys:**

- **Adran 22 – Gwybodaeth a fwriedir i'w chyhoeddi yn y dyfodol**
  Lle cynlluniwyd cyhoeddi ar yr adeg y gwnaed y cais; Er enghraifft, adroddiad blynyddol, neu ganlyniadau ymchwiliad. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod pryd y bydd y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi a sut gellir ei chael.
- **Adran 24 – Diogelwch gwladol**
  Gwybodaeth nad yw'n cael ei chynnwys yn Adran 23 o dan y categori Eithriad Absoliwt uchod, ond mae angen eithriad i sicrhau diogelwch gwladol. Mae hyn yn gofyn am dystysgrif wedi'i llofnodi gan Weinidog y Goron.
- **Adran 26 – Amddiffyn**
  Gwybodaeth sy'n debygol o niweidio amddiffyn cenedlaethol, neu weithgareddau ein lluoedd arfog neu rai ein cynghreiriaid.
- **Adran 27 – Cydberthynas y gwledydd**
  Gwybodaeth sy'n debygol o niweidio cydberthynas neu ddiddordebau rhyngwladol y DU; er enghraifft, gwybodaeth a gafwyd yn gyfrinachol gan wladwriaeth arall neu lys rhyngwladol.
- **Adran 28 – Cydberthynas o fewn y Deyrnas Unedig**
  Gwybodaeth sy'n debygol o niweidio'r berthynas rhwng Llywodraeth EM, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- **Adran 29 – Yr economi**
  Gwybodaeth sy'n debygol o niweidio buddiannau economaidd y DU, neu ran o'r DU, neu fuddiannau ariannol Llywodraeth EM.
- **Adran 30 – Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus**
  Gwybodaeth a gedwir at ddibenion ymchwiliadau ac achosion troseddol, yn ogystal â gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau cyfrinachol sy'n ymwneud â'r rhain, neu achosion sifil sy'n deillio ohonynt.
- **Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith**
  Gwybodaeth nad yw Adran 30 yn ymdrin â hi, sy'n debygol o niweidio amrywiaeth eang o weithgareddau ymchwiliol.
- **Adran 33 – Archwilio**
  Yn berthnasol i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag archwilio (e.e. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol), neu sy'n archwilio economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnyddio adnoddau awdurdodau cyhoeddus eraill. Mae gwybodaeth wedi'i heithrio os yw'n debygol o niweidio'r swyddogaethau hynny.
- **Adran 35 – Llunio polisi'r llywodraeth**
  Gwybodaeth a gedwir gan un o adrannau'r llywodraeth neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch creu polisi'r llywodraeth.
- **Adran 36 – Cael effaith andwyol ar weithredu materion cyhoeddus**

Gwybodaeth a allai atal gallu awdurdod cyhoeddus i gynnal ei fusnes yn effeithiol, pe bai'r wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd – mae defnyddio'r eithriad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Prif Weithredwr yn dilyn argymhelliad gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

- **Adran 37 - Cyfathrebu â'i Fawrhydi ac anrhydeddau cenedlaethol**
  Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth sy'n ymwneud â chyfathrebu â'i Fawrhydi, aelodau o'r teulu Brenhinol neu'r osgordd Frenhinol, neu roi anrhydeddau, e.e. argymhellion i unigolion dderbyn anrhydedd yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd.

- **Adran 38 – Iechyd a diogelwch**
  Gwybodaeth a fyddai, neu a fyddai'n debygol o fod, yn peryglu iechyd corfforol, iechyd meddwl neu ddiogelwch unigolyn.

- **Adran 39 – Gwybodaeth amgylcheddol**
  Wedi'i eithrio o dan y Ddeddf, ond ymdrinnir â'r cais yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- **Adran 40 – Gwybodaeth bersonol am drydydd parti**
  Gwybodaeth sy'n bersonol i'r person sy'n gwneud y cais, neu i rywun arall heblaw am y person sy'n gwneud y cais.

- **Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol**
  Mae'r eithriad hwn yn berthnasol lle y gellid cynnal hawliad o fraint broffesiynol gyfreithiol mewn achosion cyfreithiol; Er enghraifft, cyngor a ddarperir gan gyfreithiwr i'w gleient, neu wybodaeth sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol cyfredol.

- **Adran 43 – Buddiannau masnachol**
  Fel cyfrinachau masnach, a gwybodaeth a allai, os caiff ei datgelu, gael effaith andwyol/niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson, gan gynnwys yr awdurdod sy'n ei gadw.